

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 11, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes, Llinos Williams, Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

Croesawyd Llinos Williams a Gareth Ellis yn ôl fel cyngorwyr y Cyngor.

1. Ymddiheuriadau: Janet Edwards, Gethin Williams, Carwyn Evans.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Geraint Rowlands

Is Gadeirydd: Gethin Williams.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams

Neuadd Bentref Bontddu (1): Carwyn Evans

Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.

Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

Oherwydd anhawster cael person i lenwi swydd y Clerc, penderfynodd Henry Edwards parhau yn y swydd. Bydd yr aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 13, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 13, 2017

Eitem 9.ch. Llythyr (7/7/2017) oddi wrth Mr Paul Williams, Bontddu. Mae'n cynnig ei hun ymlaen fel aelod o'r Cyngor. Mi oedd yn aelod o'r Cyngor rhwng 2010-2012.

Penderfynwyd derbyn cais Mr Williams i fod yn gynghorydd ar y Cyngor.

Mae angen un person arall fel cynghorydd.

Eitem 11.b. Llythyr ateb oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd peiriant glanhau yn glanhau draen sydd tu allan i fflatiau Hen Eglwys, ar gongl y maes parcio ar gyfer toiledau Bontddu.

6. Materion Ariannol

a. Penderfynwyd newid y prisiau a thaliadau i'r Fynwent. Penderfynwyd hefyd newid y nodyn 'Tâl ychwanegol a chodi'r ar gladdedigaeth person oedd yn byw tu allan i Wynedd – gweler trosodd. Dylid ychwanegu 100% i ffioedd wedi ei nodi gyda*' i 'Tâl ychwanegol a godir ar gladdedigaeth person sydd yn byw tu allan i ffinniau'r gymuned. Dylid ychwanegu 25% i ffioedd wedi ei nodi gyda*'.

b. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2017: £8,475.59.

c. Bil (7/2017) am £225 oddi wrth Janet Edwards at daliad Ebrill, Mai, Mehefin i ofalu am doiledau Bontddu.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. O'r ymchwiliad gan BDO mae angen nodi yn y Cofnodion ein bod yn cytuno gydag ein polisiau yn arbennig Cod Ymddygiad. Ein polisiau eraill yw Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Cyllidol, Polisi Iaith a Protocol.

Penderfynwyd bod y dogfennau yn gywir a chafodd eu cymeradwyo.

d. Llythyr (10/7/2017) oddi wrth Welsh Council Audit / BDO. Mae'n rhestru pwyntiau sydd eu hangen i gwblhau'r archwiliad blynyddol.

i. Tydy hi ddim yn glir a wnaeth y Cyngor baratoi cyllideb i gefnogi praesept ar gyfer 2016/2017.

Mae copi iddynt yn dangos y gyllideb i gefnogi y praesept.

ii. Maent eisiau eglurhad ar asedau sefydlog. Rhoddwyd gwybod iddynt flwyddyn diweddfaf nid yw'r yswiriant yn glir ar asedau sefydlog.

Mae'n anodd penderfynu costau ein hasedau oherwydd y wybodaeth sy'n cael ei roi gan ein cwmni ysiwriant.

iii. Mae angen cyfrifon y cyngor ar wefan y cyngor. Os nid ydynt ar y wefan bydd mater amodi'n cael ei gyhoeddi.

Bydd gwybodaeth am 2015/2016 a 2016/2017 yn cael ei roi ar ein gwefan.

iiii. Mae angen i ni ddarparu copi o'r P32 a chopi o'r derbyniadau cyflwyno Amser Real ar gyfer Chwefror neu Fawrth.

Cafwyd copi o'r wybodaeth gan E.W,Owen a'i Chwmni.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION GORFFENAF 11, 2017

v. Mae angen cymeradwyo Cod Ymddygiad.

Gwnaethpwyd hyn yn Eitem 6.ch.

Maent angen y wybodaeth cyn 17 Gorffennaf.

7. Mynwent Llanelltyd

- a. Galwodd Dr Julian Roberts a'i frawd a'i fab i fy ngweld (5/7/2016) i ddiolch am y gwaith gwnaethpwyd i drefnu gosod beddfaen ar y diweddar Martha Roberts ac Althea Valerie.
- b. Bydd y wal y fynwent yn cael ei archwilio gan Geraint Rowlands a Gareth Ellis.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- a. Cafodd Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth cyfarfod gyda swyddogion o'r Parc a chafwyd gwybod bydd yn iawn rhoi ateb i geisiadau cynllunio wedi'r rheol 21 diwrnod ond i ni roi gwybod iddynt ein dymuniad.
- b. Llythyr (4/5/2017) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn cynnig 4 coeden afal i gymunedau lleol a helpu gyda'u plannu. Amgáu mae ffurflen i'w lenwi ac maent ei angen cyn diwedd Awst 2017.
- c. Llythyr (4/7/2017) gyda dogfennau ymwneud ag adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri, gwaith sy'n cael ei wneud pob pedair blynedd. Mae'r Awdurdod yn gwahodd ni i roi barn ar y diwygiadau arfaethedig yn unig cyn 30/8/2017 a hefyd ar Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol. Mae dogfennau i'w gweld yn y Llyfrgell Gyhoeddus.

9. Gohebiaeth

- a. Llythyr (Mai 2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen gwybod enw'r cynghorydd bydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal. Mae le i ddau ond dim ond un bleidlais sydd gan bob Cyngor.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer a Gareth Ellis cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfodydd Pwyllgor Ardal.

- b. Llythyr (16/05/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn holi os gennym ddiddordeb mewn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION GORFFENNAF 11, 2017

c. Llythyr (1/6/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhestru cyrsiau sydd ar gael ganddynt. Y cyrsiau lleol Cymraeg yw:

Dealltwriaeth y Gyfraith (13/9/2017), Cyfarfod y Cyngor (18/10/2017).
Cyrsiau yn Canolfan Hen Blas, Bala.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer fynychu cwrs Dealltwriaeth y Gyfraith.

Cod ymddygiad (26/7/2017). Cyrsiau yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau.

Penderfynwyd i Mae Henry Edwards fynychu cwrs Cod ymddygiad.

Cost hyfforddiant yw £40 yr aelod. Cynhelir sesiwn am 6.30yh.

ch. Anfonwyd llythyr (17/6/2017) i Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol, Cyngor Gwynedd i roi gwybod iddynt fod prydles toiledau Bontddu yn dod i ben Awst 27, 2018.

d. Llythyr (26/6/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn, Medi 30, 2017 ym Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwydd.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer mynychu'r cyfarfod.

dd. Llythyr (28/6/2017) oddi wrth Tim Teithio Llesol Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ymgynghoriad cyhoeddus bydd yn cychwyn ar 28/6/2017 hyd at 20/9/2017 i gael barn ar ddarpariaeth mapiau ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Bydd sesiwn ymgynghoriaeth yn Ystafell 2, Swyddfeydd y Cyngor, Penarlag ar 19/07/2017 am 9.30yb - 4.00yp.

e. Llythyr (29/6/2017) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ynglŷn â dyfodol safle Ysgol y Clogau, Bontddu, yn bennaf at geisio adnabod disgynyddion y safle. Rhoddwyd copi o'r llythyr i'r aelodau (29/6/2017).

f. Llythyr (5/7/2017), trwy law Un Llais Cymru, oddi wrth Arfon Hughes, Cyngor Cymuned Dinas Mawddwy, yn rhoi gwybod mae cwmni Tindle yn darfod cyhoeddi papur newydd Y Dydd. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Orffennaf 12 am 7.30yh i weld os oes diddordeb i'w barhau.

ff. Llythyr (4/7/2017) oddi wrth YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy), Cyngor Gwynedd, yn amgáu copi o adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru a baratowyd dan adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010 am y llifogydd yn Llanellyd yn ystod Rhagfyr 2015.

g. Galwad ffôn (6/7/2017) oddi wrth Mrs Rebecca Lloyd, Bontddu yn diolch am sgubo gwastraff ar y ffordd yn Bontddu.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION GORFFENNAF 11, 2017

h. Llythyr (9/7/2017) oddi wrth Janet Edwards yn rhoi gwybod o'i ymddeoliad o'r Cyngor.

Penderfynwyd anfon llythyr i Janet Edwards i ddiolch iddi am ei chefnogaeth pryd roedd yn aelod o'r Cyngor.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae canmoliaeth am y gwelliant gyda'r gylchffordd newydd ar yr A470 wrth Bont Y Wernddu.

b. Roedd erthygl yn y Cambrian News chydig o wythnosau yn ôl yn beirniadu Peredur Jenkins ar ddiffygion cyllideb Cyngor Gwynedd. Nid oedd yr erthygl yn gywir.

11. Materion Brys

a. Penderfynwyd canmol Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd am sgubo'r ffyrdd yn y gymuned ac i ddiolch iddynt am y gwaith. Hefyd, rhoi gwybod mae cyflwr wyneb y ffordd ddim yn dda wrth Nant y Garreg, Taicynhaeaf oherwydd tyllau sydd angen eu llenwi.

b. Penderfynwyd diolch Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd am iddynt gael gwared â gwastraff oedd yn Taicynhaeaf.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mae angen tocio coed wrth y gylchffordd newydd A470/493 oherwydd nid yw gyrwyr yn medru gweld y gylchffordd yn glir o gyfeiriad Tywyn.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Peredur Jenkins i wneud ymholiadau gyda Mr Iwan ap Trefor ynglŷn ag ceir yn parcio rhwng y gyffordd o'r ffordd A496 a mynedfa i Neuadd Bentref Llanelltyd. Mae'r ceir yn achosi anhawster i'r bobol sy'n defnyddio'r ffordd. Oherwydd hyn mi fuasai'r Cyngor yn ddiolchgar i Gyngor Gwynedd ystyried rhoi llinellau melyn dwbl i wahardd ceir parcio. Y bobol sy'n parcio yn y lleoliad yn gweithio yn nhŷ Sŵn y Nant. Tro diwethaf i ni gysylltu â Mr Iwan ynglŷn â'r mater oedd 14/10/2016.
